**Yn amodol ar gytundeb**

# CYTUNDEB FFRAMWAITH CYFIEITHU

GWNEIR Y CYTUNDEB hwn ar 2019

**RHWNG:**

(1) **S4C** sydd wedi ei lleoli yn **Canolfan S4C: Yr Egin, Caerfyrddin, SA31 3EQ** (**"S4C "**), a

(2) **[Enw]** [(Rhif Cwmni: [ ])] sydd a'i swyddfa gofrestredig wedi ei leoli yn [Cyfeiriad] **("y Cyfieithydd")**

**RHAGARWEINIAD:**

(A) Ar 4 Mehefin 2019 cyhoeddodd S4C dendr ar gyfer cytundeb fframwaith cyfieithu.

(B) Yn dilyn y broses dendro, dewiswyd y Cyfieithydd gan S4C yn ogystal ag eraill i fod yn barti yn y cytundeb fframwaith, sy'n golygu y gall S4C roi'r cyfle i'r Cyfieithydd ddarparu gwasanaethau cyfieithu o bryd i'w gilydd.

(C) Yn unol â hynny, mae'r partïon yn dymuno ymrwymo i'r cytundeb fframwaith hwn sy'n nodi'r amodau a'r telerau sy'n rheoli'r broses o ddarparu gwasanaethau cyfieithu gan y Cyfieithydd o bryd i'w gilydd.

**CYTUNIR FEL A GANLYN:**

## 1. <u>Diffiniadau a Dehongliadau</u>

1.1 Yn y Cytundeb hwn, priodolir i'r geiriau a'r ymadroddion isod yr ystyron a ganlyn oni bai fod y cyd-destun yn mynnu fel arall:-

| | |
|---|---|
| "Briff Prosiect" | briff sy'n nodi manylion y gwaith cyfieithu sydd ei angen ar S4C gan gynnwys, lle'n berthnasol, y nifer o eiriau a'r Dyddiad Cyfleu ac/neu'r lleoliad ar gyfer gwaith cyfieithu ar y pryd a'r nifer o oriau arfaethedig, a boed yn waith cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg i'r Saesneg ynghyd ag unrhyw fanylion perthnasol arall; |
| "Cwmnïau Teulu" | unrhyw is-gwmni neu gwmni dal o dro i dro ac unrhyw is-gwmni o'r cyfryw gwmni dal o dro i dro (fel y diffinnir 'cwmni dal' ac 'is-gwmni' yn adrannau 1159 Deddf Cwmnïau 2006); |
| "Cyfnod" | cyfnod y Cytundeb hwn sef y cyfnod o dair blynedd yn dechrau ar y Dyddiad Effeithiol hwn os na'i derfynir yn gynharach neu ei ymestyn yn unol â chymal 10; |
| "Cyfraddau a Gytunwyd" | y cyfraddau a nodir yn Atodlen 1; |
| "Cyfreithiau Diogelu Data" | Deddf Diogelu Data 2018 a'r GDPR ac unrhyw gyfreithiau, rheoliadau a |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | deddfwriaeth eilaidd gweithredu cenedlaethol, fel y'u hamrywir neu y'u diwygir o bryd i'w gilydd, yn y DU; ac yna (ii) unrhyw ddeddfwriaeth olynol i'r GDPR neu Ddeddf Diogelu Data 2018; ac (iii) unrhyw ddeddfwriaeth diogelu data newydd cenedlaethol; |
| "Cyfreithiau Perthnasol" | yr holl gyfreithiau, rheolau, rheoliadau a safonau rhanbarthol, cenedlaethol neu ryngwladol gan gynnwys y rhai a weithredir gan unrhyw lywodraeth neu awdurdod rheoleiddio, a holl safonau a chanllawiau arfer perthnasol y diwydiant a bennir gan unrhyw gorff hunanreoleiddiol sydd yn berthnasol o bryd i'w gilydd i ddarparu'r Gwasanaeth, gan gynnwys heb gyfyngiad y Cyfreithiau Diogelu Data; |
| "Cynrychiolydd S4C" | **Manon Wyn James** a/neu unrhyw bersonau eraill a hysbysir gan S4C i'r Cyfieithydd yn ysgrifenedig o bryd i'w gilydd yn ystod y Cyfnod; |
| "Cytundeb" | y cytundeb hwn gan gynnwys y Rhagarweiniad ac unrhyw ddogfen y cyfeirir ati yn y cytundeb hwn, wedi ei chwblhau neu i'w chwblhau yn unol â'i delerau; |
| "Data Personol" | mae ganddo'r ystyr a roddir i'r term yn y Cyfreithiau Diogelu Data; |
| "Deddf" | Deddf Hawlfraint Dyluniadau a Phatentau 1988 fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd; |
| "Deunydd" | unrhyw waith cyfieithu a wneir gan y Cyfieithydd yn ystod y Cyfnod yn ôl cyfarwyddyd S4C yn unol â thelerau'r cytundeb hwn; |
| "DdRhG": | Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac unrhyw ddeddfwriaeth eilaidd a wnaed dan y ddeddf honno o bryd i'w gilydd ynghyd ag unrhyw ganllawiau a/neu godau ymarfer a gyhoeddir mewn perthynas â'r fath ddeddfwriaeth; |
| "Dyddiad Cyfleu": | y dyddiad a nodir yn y Briff Prosiect, a/neu unrhyw ddyddiad arall a gytunir rhwng Cynrychiolydd S4C a'r Cyfieithydd o bryd i'w gilydd; |
| "Dyddiad Effeithiol" | 2 Awst 2019; |
| "Eiddo Deallusol" | ar y cyd, unrhyw a'r holl hawliau eiddo deallusol yn y Deunydd, neu sydd yn ymwneud â'r Gwasanaeth, gan gynnwys dyfeisiadau, patentau, dyluniadau |

| | |
|---|---|
| | cofrestredig, nodau masnach (boed wedi neu heb eu cofrestru), ceisiadau am unrhyw rai o'r uchod a'r hawl i wneud cais amdanynt yn unrhyw ran o'r byd; hawlfreintiau, hawliau sydd yn ymdebygu i hawlfraint neu'n cynnig amddiffyniad cyfatebol i hawlfraint, hawliau moesol, hawliau dyluniad, hawliau bas ddata; enwau gwefannau, enwau masnach, logos, ffurf gan gynnwys edrychiad a naws y cynnwys; medrau cyfrin, cyfrinachau masnach a gwybodaeth gyfrinachol arall; hawliau o natur hawliau atal cystadleuaeth annheg a'r hawl i ddwyn achos am beri coel; trwyddedau, cydsyniadau, caniatâd ac ildiadau mewn perthynas ag unrhyw un o'r uchod; a'r cyfan neu unrhyw hawliau tebyg neu gyfatebol sydd yn codi neu sydd yn bodoli mewn unrhyw wlad yn y byd; |
| "Ffi" | y ffi ar gyfer y Gwasanaeth yn seiliedig ar y Cyfraddau a Gytunwyd; |
| "GDPR" | Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol UE 2016/679; |
| "Geirfa S4C" | yr eirfa o eiriau Cymraeg a Saesneg a nodir ar wefan S4C yn http://www.s4c.cymru/production/downloads/guidelines/glossary.pdf ; |
| "Gwasanaeth" | darparu gwasanaethau cyfieithu fel a nodir gan S4C o bryd i'w gilydd; |
| "Is-Gytundeb" | unrhyw is-gytundeb rhwng y partïon fel y'i diffinnir yng nghymal 4.3; |
| "Personél Allweddol" | y personél a nodir yn Atodlen 2; |
| "Polisïau" | ar y cyd, holl bolisïau S4C y cyfeirir atynt yn benodol yn y Cytundeb hwn neu unrhyw Is-Gytundeb, fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd gan gynnwys Geirfa S4C, Polisi Amddiffyn Plant S4C, Polisi Amrywiaeth a Chydraddoldeb S4C a'r holl bolisïau a chanllawiau eraill sy'n berthnasol i'r Gwasanaeth a gyhoeddir o dro i dro ar wefan gynhyrchu S4C sef http://www.s4c.cymru/production/c_guidelines.shtml; a Chod Ymddygiad Proffesiynol Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru; |
| "Polisi Amrywiaeth a Chydraddoldeb S4C" | polisi amrywiaeth a chydraddoldeb S4C sydd ar gael ar wefan Awdurdod S4C; |
| "Rheoliadau" | Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004; |
| "Staff" | yr holl bersonau a gytundebir gan y Cyfieithydd neu a gyfrannir at y Gwasanaeth, |

| | |
|---|---|
| | ar sail gyflogedig neu hunangyflogedig, gan gynnwys y Personél Allweddol; |
| "TAW" | Treth ar Werth; |
| "Twyll" | unrhyw drosedd o dan gyfraith sy'n creu troseddau mewn perthynas â gweithredoedd twyllodrus neu o dan gyfraith gwlad mewn perthynas â gweithredoedd twyllodrus yn ymwneud â'r Cytundeb neu dwyllo, ceisio twyllo neu gynllwynio i dwyllo, S4C; |
| "Ymarfer Da y Diwydiant" | y cyfryw radd o fedr, gofal, diwydrwydd a phwyll o'r safon uchaf a ddisgwylir yn rhesymol ac fel arfer gan unigolion cymwys a phrofiadol sydd yn weithgar yn yr un fath o fusnes â'r Cyfieithydd, dan yr un amgylchiadau neu dan amodau tebyg; yn defnyddio dulliau, safonau, ymarferion a threfnweithiau sydd yn cwrdd â'r Cyfreithiau Perthnasol a chan ddefnyddio personél sydd â'r sgiliau a'r cymwysterau priodol. |

1.2 Golyga'r gair "hawlfraint" yr holl hawlfraint y mae gan y Cyfieithydd yr hawl iddynt o dan ddeddfau'r Deyrnas Unedig.

1.3 Oni nodir fel arall, bydd amser o'r hanfod o ran gweithredu ymrwymiadau'r Cyfieithydd o dan y Cytundeb hwn.

1.4 Bydd geiriau ac ymadroddion (gan gynnwys geiriau ac ymadroddion a ddiffinnir yng nghymal 1.1) sydd yn dynodi'r unigol yn cynnwys y lluosog ac mae'r gwrthwyneb yn wir hefyd; bydd cyfeiriadau at "barti" neu'r "partïon" yn golygu S4C a/neu'r Cyfieithydd fel bo'r cyd-destun yn mynnu; bydd cyfeiriadau at y naill ryw yn cynnwys pob rhyw; dehonglir cyfeiriadau at berson i gynnwys unrhyw unigolyn, cwmni, corfforaeth, llywodraeth, cenedl neu asiantaeth lywodraethol neu unrhyw fenter ar y cyd, ymddiriedolaeth, cymdeithas neu bartneriaeth (boed gyda phersonoliaeth cyfreithiol ar wahân ai peidio) ac unrhyw gyfuniad o unrhyw un neu fwy o'r uchod.

1.5 Defnyddir y penawdau yn y Cytundeb hwn er cyfleustra yn unig ac ni fwriedir iddynt effeithio ar y modd y dehonglir neu y deallir y Cytundeb hwn; bydd cyfeiriadau at Atodlenni a chymalau yn ymwneud ag atodlenni a chymalau'r Cytundeb hwn, a bydd cyfeiriadau at is-gymalau yn ymwneud ag is-gymalau'r cymal y mae'r cyfeiriad yn ymddangos ynddo.

1.6 Dehonglir unrhyw gyfeiriad at statud neu ddarpariaeth statudol, i gynnwys unrhyw ddeddfwriaeth eilaidd a wnaed yn ei sgil, a dehonglir unrhyw gyfeiriad at y statud hwnnw neu'r ddarpariaeth statudol honno neu'r ddeddfwriaeth eilaidd honno fel y gall fod wedi ei hamrywio, ei newid neu ei hail-weithredu neu fel y gall gael ei hamrywio, ei newid neu ei hail-weithredu o dro i dro (wedi neu heb ei newid).

1.7 Bydd y geiriau "gan gynnwys" yn golygu "gan gynnwys ond heb gyfyngiad".

1.8 Ni fydd y rheol a elwir y rheol 'ejusem generis' yn weithredol ac o ganlyniad ni fydd geiriau cyffredinol sydd yn cael eu dilyn gan y term 'arall/eraill' yn cael eu dehongli yn gaeth o ganlyniad i'r ffaith eu bod yn cael eu rhagflaenu gan eiriau sydd yn dynodi dosbarth penodol o weithredoedd, materion neu bethau.

1.9 Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y Cytundeb hwn a'r Polisïau, rhoddir blaenoriaeth i amodau'r Cytundeb hwn. Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng Is-Gytundeb a chorff y Cytundeb hwn, y cyntaf fydd yn rhagori.

## 2. Cwmpas y Cytundeb

2.1 Mae'r Cytundeb hwn yn llywodraethu'r berthynas gyffredinol rhwng y partïon o ran darparu'r Gwasanaeth yn ystod y Cyfnod am y Cyfraddau a Gytunwyd. Mae'r Cyfieithydd yn cydnabod nad oes unrhyw beth yn y Cytundeb hwn yn gorfodi S4C i roi unrhyw waith cyfieithu i'r Cyfieithydd.

2.2 Mae'r Cyfieithydd yn ymrwymo â S4C i ddarparu'r Gwasanaeth hyd eithaf ei allu yn broffesiynol, yn gydwybodol, yn raenus ac yn unol â'r Polisïau, Ymarfer Da y Diwydiant a Chyfreithiau Perthnasol drwy gydol y Cyfnod ac yn unol â holl gyfarwyddiadau rhesymol S4C o bryd i'w gilydd. Mae'r Cyfieithydd yn ymrwymo â S4C i ddarparu'r Gwasanaeth i S4C yn unol â'r Briff Prosiect perthnasol a, lle'n berthnasol, i ddarparu'r Deunydd i S4C ar neu cyn unrhyw Ddyddiad Cyfleu perthnasol.

## 3. Dewis Darparwr

3.1 Yn dilyn y broses dendro, sefydlodd S4C restr o ddarparwyr gwasanaethau cyfieithu llwyddiannus, gan gynnwys y Cyfieithydd, sy'n nodi pa fath o Wasanaeth mae'r darparwyr llwyddiannus yn ei ddarparu a'u cyfraddau perthnasol am ddarparu'r Gwasanaeth ("y Rhestr"). Os bydd angen y Gwasanaeth ar S4C ar unrhyw adeg yn ystod y Cyfnod, bydd S4C yn dewis darparwr addas sy'n cynnig y pris gorau, ac yn darparu Briff Prosiect iddo ("y Dewis Cyntaf").

3.2 Os nad yw'n bosib i'r Dewis Cyntaf gwblhau'r gwaith o fewn yr amserlen a nodwyd gan S4C yn y Briff Prosiect, neu os nad yw'r Dewis Cyntaf yn ymateb o fewn 24 awr i'r cais, gall S4C gynnig y gwaith i ddarparwr arall o'r Rhestr sy'n cynnig y pris gorau ("yr Ail Ddewis").

3.3 Os nad yw'n bosib i'r Ail Ddewis gwblhau'r gwaith neu os nad yw'r Ail Ddewis yn ymateb o fewn 24 awr i dderbyn y cais, gall S4C gynnig y gwaith i ddarparwr arall o'r Rhestr, ac yn y blaen hyd nes y bydd un o'r darparwyr ar y Rhestr yn cytuno i ddarparu'r Gwasanaeth. Lle nad oes unrhyw ddarparwr o'r Rhestr yn cytuno i ddarparu'r Gwasanaeth, gall S4C gynnig y gwaith i unrhyw berson arall.

## 4. Gwasanaeth [i'w addasu yn unol â'r ymateb tendr llwyddiannus]

4.1 Os bydd angen y Gwasanaeth ar S4C ar unrhyw adeg yn ystod y Cyfnod gall S4C ddarparu Briff Prosiect i'r Cyfieithydd yn nodi gofynion y gwaith cyfieithu, gan gynnwys y Dyddiad Cyfleu. Ar gyfer gwaith cyfieithu ar y pryd, bydd y Briff Prosiect yn nodi'r amseroedd a'r lleoliad ble bydd angen

i’r Cyfieithydd gyflawni’r fath waith ynghyd ag amcangyfrif o’r nifer o glustffonau y bydd eu hangen.

4.2 Bydd y Cyfieithydd yn cadarnhau o fewn 24 awr o dderbyn y Briff Prosiect os y medr gyflawni’r gwaith cyfieithu yn unol â’r Briff Prosiect.

4.3 Bernir bod is-gytundeb yn cael ei greu rhwng y partïon wrth i’r Cyfieithydd gadarnhau y medr gyflawni’r gwaith cyfieithu a nodir yn y Briff Prosiect (“Is-Gytundeb”). Bydd pob Is-Gytundeb yn gytundeb ar wahân fydd yn cynnwys yr amodau a thelerau a nodir yn y Cytundeb hwn ac yn y Briff Prosiect perthnasol, gan wahardd pob un ac unrhyw amodau a thelerau cyflenwi a gynigir gan y Cyfieithydd i S4C.

4.4 Lle bo Briff Prosiect S4C yn gofyn i’r Cyfieithydd ddarparu Gwasanaeth cyfieithu testun, bydd y Cyfieithydd yn gwneud ei orau i sicrhau:

a) na fydd unrhyw gamgymeriadau neu wallau yn y Deunydd a gyflëir i S4C;
b) y bydd y Deunydd yn adlewyrchu ffont a gosodiad y ddogfen(nau) gwreiddiol yn gywir; ac
c) y bydd y Deunydd yn adlewyrchu steil tŷ (*house style*) S4C

Lle bo S4C o’r farn bod y Deunydd a gyflëir yn wallus neu’n is na’r safon a ddisgwylir, bydd y Cyfieithydd, ar gais S4C, yn cywiro’r Deunydd ar fyrder ac o fewn 24 awr ar yr hwyraf. Ni fydd goblygiad ar S4C i wneud unrhyw dâl uwchlaw’r Ffi i’r Cyfieithydd am unrhyw waith cywiro o’r fath.

4.5 Lle bo Briff Prosiect S4C yn gofyn i’r Cyfieithydd ddarparu Gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, bydd y Cyfieithydd yn sicrhau:

a) bod yr aelod o Staff perthnasol yn mynychu’r lleoliad perthnasol ar y dyddiad a’r amseroedd perthnasol a nodir yn y Briff Prosiect;
b) y darperir nifer digonol o glustffonau neu dechnoleg addas arall o safon da i fynychwyr y digwyddiad/cyfarfod; a
c) bod y Staff yn gwneud ei orau i sicrhau na fydd unrhyw wallau neu gamgymeriadau yn y Deunydd.

4.6 Bydd y Cyfieithydd yn hysbysu S4C yn syth yn ysgrifenedig os am unrhyw reswm y bydd yn methu â chyflawni ei ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn. Bydd unrhyw hysbysiad o’r fath heb ymrwymiad i unrhyw hawliau y gall S4C fod â hawl iddynt boed o dan y Cytundeb hwn neu fel arall o dan y gyfraith mewn perthynas ag anallu’r Cyfieithydd i fedru cyflawni ei ddyletswyddau.

4.7 Bydd y Cyfieithydd yn sicrhau y darperir y Gwasanaeth mewn ffordd broffesiynol, cwrtais, amserol, cydwybodol ac effeithiol, ac yn unol â’r safonau a fydd yn ofynnol gan S4C.

4.8 Ni fydd y Cyfieithydd yn, a bydd yn sicrhau na fydd ei Staff yn, cynrychioli cyfrifoldeb corfforaethol S4C ar unrhyw fater. Bydd y Cyfieithydd yn sicrhau na fydd y Gwasanaeth yn cael ei ystyried gan y cyhoedd fel ffordd S4C o gyfleu ei pholisi neu ei chynllun busnes, ond ei fod yn wasanaeth sydd yn ategu’r Polisïau.

4.9 Ni fydd y Cyfieithydd, a bydd yn sicrhau na fydd y Staff, yn cyfathrebu gyda’r wasg neu’n gwneud unrhyw ddatganiadau ynghylch materion

ariannol neu gyfansoddiadol sydd yn ymwneud ag S4C neu ei Chwmnïau Teulu neu wasanaethau S4C mewn unrhyw ffordd.

4.10 Ni fydd y Cyfieithydd yn ymrwymo i unrhyw ddyletswydd, boed yn echblyg neu'n ymhlyg, ag unrhyw berson sydd yn neu a all wrthdaro â chyflawniad llawn a chywir ei ddyletswyddau i S4C o dan y Cytundeb hwn.

4.11 Bydd y Cyfieithydd yn, a bydd yn sicrhau bod yr holl Staff ar bob adeg yn ystod y Cyfnod yn, gweithredu er lles gorau S4C ac yn benodol ond heb gyfyngiad, ni fydd yn gwneud neu'n hepgor gwneud unrhyw beth nac yn ymrwymo i unrhyw gytundebau gydag unrhyw berson a allai wrthdaro â buddiannau gorau S4C, gael effaith andwyol ar enw ac ewyllys da S4C ac/neu oblygiadau'r Cyfieithydd o dan y Cytundeb hwn.

## 5. <u>Trefn Gyfathrebu a Chyfarfodydd Adolygu</u>

5.1 Bydd S4C yn adolygu'r Cytundeb hwn a pherfformiad y Cyfieithydd o'r Gwasanaeth yn dilyn cyfnod o ddeuddeg (12) mis o'r Dyddiad Effeithiol ("Adolygiad y Flwyddyn Gyntaf").

5.2 Yn dilyn Adolygiad y Flwyddyn Gyntaf, os bydd S4C o'r farn bod y Cyfieithydd yn methu â chwrdd â'r safon ddisgwyliedig neu bod S4C yn anfodlon â pherfformiad y Cyfieithydd o'r Gwasanaeth, gall S4C derfynu'r Cytundeb hwn gydag effaith ddisyfyd trwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cyfieithydd.

5.3 Bydd y Cyfieithydd yn cyfarfod ag S4C ar adegau ac ar ddyddiadau y gwneir cais rhesymol gan S4C amdanynt o bryd i'w gilydd yn ystod y Cyfnod i drafod unrhyw fater sydd yn codi o ddarparu'r Gwasanaeth. Bydd y Cyfieithydd yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod y Personél Allweddol yn mynychu pob cyfarfod adolygu.

5.4 Yn y cyfarfodydd adolygu bydd S4C a'r Cyfieithydd yn adolygu ac yn trafod materion sydd yn codi o ddarparu'r Gwasanaeth gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i'r canlynol:

5.4.1 natur a/neu safon y Gwasanaeth a ddarparwyd;

5.4.2 unrhyw newidiadau i'w gwneud i'r Gwasanaeth er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Gwasanaeth;

5.4.3 unrhyw faterion arall.

5.5 Yn dilyn y fath gyfarfodydd adolygu, gall S4C roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cyfieithydd i:

5.5.1 gadarnhau apwyntiad y Cyfieithydd am weddill y Cyfnod yn unol â thelerau ac amodau'r Cytundeb hwn;

5.5.2 gadarnhau apwyntiad y Cyfieithydd am weddill y Cyfnod ar y fath delerau diwygiedig, ychwanegol neu wahanol a gytunir rhwng y partïon ac a gadarnheir yn ysgrifenedig; neu

5.5.3 derfynu'r Cytundeb hwn drwy roi tri mis o rybudd.

## 6. Personél Allweddol

6.1 Bydd y Cyfieithydd yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod y Personél Allweddol yn parhau yn gyflogedig ganddo ac ar gael i gyfrannu at ddarparu'r Gwasanaeth trwy gydol y Cyfnod.

6.2 Bydd y Cyfieithydd yn hysbysu S4C yn ysgrifenedig am unrhyw faterion neu amgylchiadau a allai effeithio ar argaeledd y Personél Allweddol yn ddi-oed, pan fydd yn dod yn ymwybodol o hynny.

6.3 Os na fydd unrhyw rai o'r Personél Allweddol ar gael ar unrhyw adeg, bydd y Cyfieithydd yn ysgrifennu at S4C i gynnig rhywun addas yn eu lle. Ni chaniateir i unrhyw berson sydd yn cymryd lle y Personél Allweddol i gymryd rhan yn y broses o gyfleu'r Gwasanaeth oni bai bod S4C wedi rhoi ei chymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw i'r person hwnnw. Os na fydd modd dod o hyd i rywun sy'n dderbyniol i S4C, bydd gan S4C yr hawl i roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cyfieithydd ei bod yn terfynu'r Cytundeb hwn neu unrhyw Is-Gytundeb yn syth.

6.4 Mae gan S4C yr hawl i ofyn i'r Cyfieithydd waredu unrhyw aelod o Staff neu i sicrhau na fydd y cyfryw aelod o Staff yn rhan o'r broses o ddarparu'r Gwasanaeth os yw S4C yn ystyried bod eu hymddygiad yn niweidiol i fuddiannau, enw da neu ewyllys da S4C. Os bydd S4C yn gofyn i'r Cyfieithydd wneud hyn drwy hysbysiad ysgrifenedig yna bydd y Cyfieithydd yn mynd ati'n ddi-oed i gydymffurfio â hysbysiad ysgrifenedig S4C. Bydd penderfyniad S4C ynghylch a ddylid gwaredu unrhyw aelod o Staff o'r fath yn derfynol ac yn bendant. Ni fydd gan S4C unrhyw atebolrwydd i'r Cyfieithydd neu i unrhyw aelod o Staff o'r fath ar gyfer gwaredu o'r fath mewn unrhyw amgylchiadau, a bydd y Cyfieithydd yn indemnio S4C ar alw rhag ac yn erbyn unrhyw a phob cais, gorchymyn, achos a/neu gyfreithiad a fydd yn cael ei wneud neu ei ddwyn neu y ceir bygythiad y bydd yn cael ei wneud neu ei ddwyn yn erbyn S4C gan unrhyw aelod o Staff o'r fath (gan gynnwys costau a threuliau cyfreithiol ar sail cyfreithiwr cleient unigol) a fydd yn codi mewn cysylltiad â hynny ac unrhyw iawndal a ddyfernir neu arian setlo a delir mewn cysylltiad â hynny. Ni fydd gwaredu unrhyw aelod o Staff o dan y cymal hwn yn rhyddhau'r Cyfieithydd o unrhyw rai o'i rwymedigaethau neu ei atebolrwydd dan y Cytundeb hwn neu dan unrhyw Is-Gytundeb.

## 7. Hawliau Eiddo Deallusol

7.1 Bydd yr Eiddo Deallusol yn berchen i ac yn eiddo llwyr S4C. Bydd S4C yn rhydd i ddefnyddio ac i ymelwa (ac i awdurdodi trydydd-bartïon i ddefnyddio ac i ymelwa) ar yr Eiddo Deallusol ym mha bynnag ffurf, ym mha bynnag fodd ac mewn unrhyw gyfrwng bynnag (boed yn hysbys ar y Dyddiad Effeithiol neu a ddyfeisir wedi hynny) ac mae'r Cyfieithydd trwy hyn yn aseinio i S4C yn llwyr, yn ddi-droi'n-ôl ac yn ddiamod gyda theitl llawn wedi ei warantu ac yn rhydd o bob llyffethair yr holl hawliau, budd a theitl ledled y byd yn ac i unrhyw a phob hawlfraint, hawl sydd o natur hawlfraint, hawl bas data a hawl dyluniad heb ei chofrestru yn y DU boed yn hysbys ar hyn o bryd neu sy'n dod i rym yn y dyfodol a gynhwysir yn yr Eiddo Deallusol gyda'r bwriad a gyda'r effaith y bydd yr holl hawliau o'r fath yn cael eu breinio yn S4C yn awtomatig ac yn syth ar y dyddiad y caffaelir, y creuir, y datblygir, y dylunnir neu fel arall y paratoir y fath hawliau ymhob achos am gyfnod llawn y cyfryw gan gynnwys pob adnewyddiad ohonynt ac estyniad iddynt ynghyd â phob hawl, budd neu

bŵer sydd yn tarddu neu sydd yn deillio ohonynt gan gynnwys yr hawl i ddwyn achos am iawndal a rhwymedïau eraill mewn perthynas ag unrhyw darfu arnynt yn y gorffennol neu'n gyfredol.

7.2 Mae'r Cyfieithydd yn cadarnhau i S4C yn ddiamod ac yn ddi-alw'n-ôl i S4C, ei holynwyr, ei haseineion a'i thrwyddedeion:-

7.2.1 bod yr holl Staff wedi aseinio a/neu roi i'r Cyfieithydd yr holl hawliau a chaniatâd yn sgil y Ddeddf a'r holl gyfreithiau eraill sydd mewn grym nawr neu yn y dyfodol mewn unrhyw ran o'r byd, y gall fod eu hangen er mwyn medru ymelwa ar yr Eiddo Deallusol ym mha bynnag ffurf ac ym mha bynnag fodd neu gyfrwng (boed yn hysbys ar hyn o bryd neu a ddyfeisir wedi hyn); a

7.2.2 bod yr holl Staff wedi ildio yn ddi-alw'n-ôl a diamod eu holl hawliau mewn perthynas â'r Deunydd y mae'r cyfryw Staff ar hyn o bryd neu y gallant fod â'r hawl iddynt yn y dyfodol yn sgil darpariaethau Adrannau 77, 80, 84 ac 85 y Ddeddf ac unrhyw hawliau moesol eraill y gall y cyfryw Staff fod â hawl iddynt dan unrhyw ddeddfwriaeth sydd mewn grym nawr neu yn y dyfodol mewn unrhyw ran o'r byd.

## 8. **<u>Tâl</u>**

8.1 Ar yr amod fod y Cyfieithydd yn cyflawni ac yn cydymffurfio'n llwyr a phrydlon â'i ymrwymiadau, gwarantau a'i ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn ac unrhyw Is-Gytundeb perthnasol, bydd S4C yn talu'r Ffi (ynghyd â TAW os yw'n daladwy) mewn ystyriaeth lawn a therfynol am y Gwasanaeth, yr holl Eiddo Deallusol a hawliau eraill yn y Gwasanaeth a'r Deunydd ac am bob ymrwymiad arall ar ran y Cyfieithydd yn unol â'r Cytundeb hwn ac unrhyw Is-Gytundeb.

8.2 Telir y Ffi i'r Cyfieithydd yn ôl-ddyledus ac wedi i S4C dderbyn anfoneb y Cyfieithydd a fydd yn foddhaol at ddibenion TAW os yw'n daladwy.

8.3 Mae'r Cyfieithydd yn cydnabod bod y Ffi yn gydnabyddiaeth gyflawn am y Gwasanaeth ac am yr hawliau a roddwyd ac a aseiniwyd drwy'r Cytundeb hwn ac unrhyw Is-Gytundeb ac am bob ildio hawliau a chadarnhau a wnaed ac am bob ymrwymiad arall ar ran y Cyfieithydd.

8.4 Bydd amser cyfleu yn hanfod o ran y Cytundeb hwn. Os digwydd i'r Cyfieithydd fethu ag ymgymryd â'r Gwasanaeth erbyn y Dyddiad Cyfleu perthnasol, neu os nad yw'n bresennol ar amser ar gyfer unrhyw waith cyfieithu ar y pryd, ni fydd dyletswydd ar S4C i dalu'r Ffi a bydd hawl gan S4C i derfynu'r Cytundeb hwn ac ymrwymiad y Cyfieithydd ar unwaith heb dalu unrhyw dâl, iawndal, neu dâl am golled drwy rybudd ysgrifenedig i'r Cyfieithydd.

## 9. **<u>Indemniad ac Yswiriant</u>**

9.1 Bydd y Cyfieithydd yn indemnio ac yn digolledu ac yn cadw S4C wedi ei hindemnio ac yn ddigolled ar alw rhag ac yn erbyn unrhyw a phob achos, hawliad, hawlgais, ymgyfreitha, dirwy, cost, traul (gan gynnwys treuliau cyfreithiol ar sail y costau rhwng cyfreithiwr a'i gleient ei hun), taliad, colled, iawndal ac atebolrwydd arall o ba bynnag natur a sut bynnag y bo'n tarddu a dioddefir, a delir neu a dderbynnir gan S4C o ganlyniad i neu

mewn cysylltiad ag unrhyw gyflawni neu ddiffyg gyflawni gan y Cyfieithydd o unrhyw rai o'i ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn neu unrhyw Is-Gytundeb neu unrhyw dorri ar unrhyw un neu fwy o'r gwarantau gan y Cyfieithydd neu unrhyw esgeulustod neu weithred neu ddiffyg gweithredu bwriadol ar ran y Cyfieithydd neu ar ran unrhyw aelod o'i Staff neu unrhyw hawliad gan unrhyw berson bod unrhyw ddefnydd neu ymelwa gan S4C neu unrhyw un o'i holynwyr, aseineion neu ei thrwyddedeion o'r Eiddo Deallusol, yn tarfu ar hawliau unrhyw berson.

9.2 Cyn cychwyn darparu'r Gwasanaeth, mae'r Cyfieithydd yn ymrwymo i gychwyn a chynnal polisïau yswiriant addas gyda chwmnïau neu dan-sgrifennwyr yswiriant cyfrifol rhag yr holl beryglon yr yswirir yn eu herbyn fel rheol yn unol ag arferion ac ymarfer da y diwydiant ac amgylchiadau penodol y Gwasanaeth trwy gydol y Cyfnod. Heb amharu ar natur gyffredinol yr uchod, bydd y cyfryw yswiriant yn cynnwys:

9.2.1 yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol gyda chwmni yswiriant cyfrifol gyda throthwy isafswm indemniad o £5,000,000 fesul hawliad a chyfanswm cronnol (*aggregate)* anghyfyngedig y flwyddyn;

9.2.2 yswiriant atebolrwydd y cyflogwr (gorfodol) digonol gyda chwmni yswiriant cyfrifol gyda throthwy isafswm indemniad o £5,000,000 fesul hawliad a chyfanswm cronnol anghyfyngedig y flwyddyn; ac

9.2.3 yswiriant atebolrwydd proffesiynol digonol gyda chwmni yswiriant cyfrifol gyda throthwy isafswm indemniad gyda chyfanswm cronnol o £5,000,000 y flwyddyn a chyfanswm cronnol anghyfyngedig y flwyddyn.

9.3 Mae'r Cyfieithydd yn ymrwymo i gydymffurfio â thelerau, amodau a chyfyngiadau'r polisïau yswiriant nodir yng nghymal 9.2 trwy gydol y Cyfnod, gan gynnwys sicrhau taliadau amserol o bob premiwm. Ni fydd y Cyfieithydd yn gwneud dim nac yn caniatáu i ddim gael ei wneud fydd yn peri y gall unrhyw un o'r polisïau yswiriant gael ei ddiddymu, neu fod yn ddi-rym neu fod yn ddirymadwy, boed hynny'n rhannol neu'n gyfan gwbl.

9.4 Bydd y Cyfieithydd yn darparu gwybodaeth lawn a'r holl ddogfennau sy'n berthnasol i'r holl bolisïau yswiriant a'r holl amrywiadau, ychwanegiadau ac estyniadau i'r holl bolisïau yswiriant i S4C yn ddi-oed wedi derbyn cais gan S4C.

9.5 Bydd y Cyfieithydd yn cynghori S4C yn syth yn ysgrifenedig o unrhyw ddigwyddiad a all arwain at unrhyw hawliad o dan unrhyw un o'r polisïau yswiriant a all rwystro'r Cyfieithydd rhag cydymffurfio â'i ddyletswyddau cytundebol o dan y Cytundeb hwn. Bydd y Cyfieithydd yn darparu i S4C gopïau o'r holl ohebiaeth a dogfennau sy'n berthnasol i unrhyw fater o'r fath yn syth wedi eu derbyn.

## 10. <u>**Cyfnod a Dewis i Ymestyn**</u>

10.1 Bydd y Cytundeb hwn yn cychwyn ar y Dyddiad Effeithiol ac, oni bai y bydd yn cael ei ymestyn gan S4C yn unol â'r darpariaethau yn y cymal hwn, neu'n cael ei derfynu yn gynharach, bydd yn parhau i fod mewn

grym tan hanner nos ar y diwrnod yn union cyn pen tair blynedd o'r Dyddiad Effeithiol.

10.2 Gall S4C ddewis ymestyn cyfnod y Cytundeb hwn am gyfnod o hyd at ddeuddeg (12) mis pellach o ddiwedd y Cyfnod trwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cyfieithydd ar unrhyw adeg cyn canol nos ar y diwrnod yn union cyn pen tair blynedd o'r Dyddiad Effeithiol. Os nad yw S4C am ymestyn y Cytundeb wedi diwedd y Cyfnod, yna bydd y Cytundeb yn dirwyn i ben ar ddiwedd y Cyfnod.

## 11. Terfynu

11.1 Heb amharu ar unrhyw hawliau eraill a fo gan S4C, gall S4C derfynu'r Cytundeb hwn a/neu unrhyw Is-Gytundeb yn syth drwy rybudd ysgrifenedig i'r Cyfieithydd heb dalu unrhyw dâl, iawndal neu dâl am golled os bydd y Cyfieithydd:-

11.1.1 yn euog o ymddygiad sydd yn gamymddygiad dybryd;

11.1.2 yn euog o dorri telerau'r Cytundeb hwn yn sylweddol neu yn barhaol gan gynnwys unrhyw fethiant i ddarparu'r Gwasanaeth, i gyfleu'r Deunydd mewn da bryd neu i gyd-fynd â gofynion a roddir iddo gan Gynrychiolydd S4C;

11.1.3 yn cael derbynnydd neu dderbynnydd gweinyddol wedi ei benodi, neu'n pasio penderfyniad i ddirwyn i ben ei fusnes (ac eithrio ar gyfer cynllun ad-drefniad neu uniad solfent) neu os bydd llys gydag awdurdod priodol yn gwneud gorchymyn o'r fath neu os bydd yn cael ei dynnu oddi ar y gofrestr cwmnïau neu fel arall yn peidio a bodoli neu'n dioddef unrhyw atafaelu neu gyflawniad ar unrhyw rai o'i asedau neu os na fydd yn gallu talu ei ddyledion pan fyddent yn codi;

11.1.4 yn destun gorchymyn gweinyddol neu'n ymrwymo i unrhyw drefniant gwirfoddol gyda'i gredydwyr;

11.1.5 os oes newid yn rheolaeth (fel y diffinnir 'rheolaeth' yn adran 1124 Deddf Trethi Corfforaethol 2010) y Cyfieithydd; neu

11.1.6 yn methu â chydymffurfio â gofynion S4C.

11.2 Gall S4C derfynu'r Cytundeb hwn neu unrhyw Is-Gytundeb drwy roi dim llai na (30) tri deg diwrnod o rybudd yn ysgrifenedig i'r Cyfieithydd.

## 12. Canlyniadau Dirwyn i Ben neu Derfynu

12.1 Wedi i'r Cytundeb a/neu unrhyw Is-Gytundeb ddirwyn i ben trwy dreigl amser neu gael ei derfynu sut bynnag y bo hynny'n digwydd ac yn ddarostyngedig ar bob achlysur i ddarpariaethau'r cymal 12 hwn, bydd yr holl hawliau a dyletswyddau dan y Cytundeb hwn yn dod i ben ac yn terfynu yn syth heb amharu ar unrhyw hawliau gweithredu sydd wedi cronni hyd at y pwynt hwnnw o dan y Cytundeb hwn, gan gynnwys unrhyw hawliau y gall y naill barti neu'r llall fod â hawl iddynt mewn perthynas â hawlio iawndal am dor-cytundeb gan y parti arall neu dan unrhyw indemniad.

12.2 Bydd dyletswydd S4C i dalu'r Cyfieithydd wedi ei chyfyngu i'r fath daliadau ag sydd yn ddyledus am y Gwasanaeth sydd wedi cael ei ddarparu mewn gwirionedd ac yn gywir gan y Cyfieithydd wrth fodd rhesymol S4C yn unol â thelerau'r Cytundeb hwn hyd at ddyddiad terfynu'r Cytundeb a/neu'r Is-Gytundeb perthnasol.

12.3 Yn syth wedi dyddiad terfynu'r Cytundeb bydd y Cyfieithydd yn cyfleu i S4C ar ei gost ei hun:

12.3.1 yr holl eiddo sydd yn berchen i S4C sydd ym meddiant neu ofal y Cyfieithydd neu o dan ei awdurdod neu reolaeth gan gynnwys unrhyw a holl Wybodaeth Gyfrinachol S4C ynghyd â'r holl gopïau ohonynt neu ddarnau ohonynt; a'r

12.3.2 holl ddogfennau eraill sydd yn berthnasol i'r Cytundeb hwn.

12.4 Mae'r Cyfieithydd yn cydnabod na fydd gan y Cyfieithydd unrhyw hawliad mewn perthynas ag unrhyw golli cyfle i hyrwyddo ei enw neu fel arall o ba bynnag natur os yw S4C yn terfynu'r Cytundeb hwn.

12.5 Bydd y cymalau canlynol yn goroesi os bydd y Cytundeb hwn yn dirwyn i ben trwy dreigl amser neu'n cael ei derfynu sut bynnag y bo'n digwydd: 1 (Diffiniadau), 7 (Hawliau Eiddo Deallusol), 9 (Indemniad), 12 (Canlyniadau Dirwyn i Ben neu Derfynu), 13 (Gwarantau) , 14 (Cyfrinachedd), 15 (Diogelu Data), 16 (Deddf Rhyddid Gwybodaeth), 18.3, 18.10 ac 18.12.

## 13. **Gwarantau'r Cyfieithydd [i'w haddasu yn unol â statws gyfreithiol y tendrwr llwyddiannus]**

Mae'r Cyfieithydd yn gwarantu yn ymrwymo ac yn cytuno â S4C:-

13.1 ei fod wedi ei sefydlu a'i ymgorffori yn ddilys o dan gyfreithiau Cymru a Lloegr a bod ganddo y pŵer corfforaethol i berchen ar ei asedau ei hun ac i gynnal a rhedeg ei fusnes yn y modd y mae'n cael ei gynnal a'i redeg ar hyn o bryd;

13.2 bod ganddo y pŵer i arwyddo'r Cytundeb hwn ac i ymarfer ei hawliau ac i gyflawni ei ddyletswyddau dan y Cytundeb hwn;

13.3 nad yw arwyddo, cyfleu a gweithredu'r Cytundeb hwn gan y Cyfieithydd yn mynd yn groes i unrhyw ddarpariaeth:

(i) ym Memorandwm ac Erthyglau Ymgorffori'r Cyfieithydd;

(ii) mewn unrhyw orchymyn neu archddyfarniad gan unrhyw lys neu gyflafareddwr; neu

(iii) mewn unrhyw ddyletswydd sydd yn rhwymo'r Cyfieithydd neu unrhyw rai o'i asedau neu ei enillion;

13.4 bod y wybodaeth, y datganiadau a'r materion ffeithiol eraill a gofnodwyd ar bapur yn ysgrifenedig i S4C gan y Cyfieithydd mewn cysylltiad â neu'n tarddu o'i dendr, yn gywir a chyflawn ymhob agwedd o sylwedd ar y dyddiad y cyflwynwyd hwy i S4C, ac y bydd y Cyfieithydd yn hysbysu S4C

yn syth os na fydd gwybodaeth o’r fath yn gywir ac yn parhau i fod yn gywir a chyflawn;

13.5 nid oes unrhyw hawliad yn cael ei ystyried ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw gyfreitha, cyflafareddiad nac achosion gweinyddol ar droed ar hyn o bryd nac, hyd eithaf gwybodaeth y Cyfieithydd, yn yr arfaeth neu wedi eu bygwth yn erbyn y Cyfieithydd neu ei asedau sydd yn arwyddocaol ac a fydd yn cael neu sydd yn debygol o gael effaith andwyol sylweddol ar allu’r Cyfieithydd i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn;

13.6 nid yw’n rhwym i unrhyw ddyletswydd arall, y byddai cydymffurfio â hi yn cael neu’n debygol o gael effaith andwyol sylweddol ar allu’r Cyfieithydd i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn;

13.7 nid oes unrhyw achosion neu gamau eraill wedi eu cymryd a heb eu rhyddhau (nac, hyd eithaf gwybodaeth y Cyfieithydd, wedi eu bygwth) ar gyfer dirwyn y Cyfieithydd i ben neu ei ddiddymu neu er mwyn penodi derbynnydd, derbynnydd gweinyddol, gweinyddwr, diddymwr, ymddiriedolwr neu swyddog tebyg parthed unrhyw rai o’i asedau neu ei enillion;

13.8 ei fod yn rhydd i arwyddo'r Cytundeb hwn ac i aseinio a rhoi i S4C yr Eiddo Deallusol ac unrhyw hawliau eraill sydd yn cael eu haseinio a'u trosglwyddo yn sgil y Cytundeb hwn ac nad yw wedi ac na fydd yn ymrwymo ei hun i unrhyw drefniant arall a allai rwystro neu gyfyngu ar allu S4C ei olynwyr aseinion a'i thrwyddedeion i ymarfer y cyfryw hawliau;

13.9 na fydd y Cyfieithydd yn dadlennu, dangos neu'n datgan ar goedd unrhyw wybodaeth ynglŷn â'r Gwasanaeth neu’r Cytundeb hwn neu fusnes S4C a bydd hyn oll yn cael ei gadw'n hollol gyfrinachol, yn ddarostyngedig i gymal 14;

13.10 y darperir y Gwasanaeth i’r safon uchaf posibl ac y cyflëir y Deunydd i S4C erbyn y Dyddiad Cyfleu perthnasol ymhob achos;

13.11 bod ganddo, ac y bydd yn sicrhau y bydd ganddo ar bob amser yn ystod y Cyfnod, lle’n berthnasol, nifer ddigonol o glustffonau sy’n gweithio ac o safon da ar gyfer gwaith cyfieithu ar y pryd;

13.12 ei fod yn aelod cyflawn/corfforaethol o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru;

13.13 y bydd yn ac yn sicrhau bod ei holl Staff bob amser yn ystod y Cyfnod yn gweithredu er budd S4C ac yn arbennig a heb gyfyngiad, ni fyddant yn gwneud neu’n methu gwneud unrhyw beth neu’n ymrwymo i unrhyw gytundebau gydag unrhyw berson a allai wrthdaro gyda budd S4C neu a allai gael effaith niweidiol ar ewyllys da neu enw da S4C;

13.14 wrth ddarparu’r Gwasanaeth, na fydd y Cyfieithydd, a bydd y Cyfieithydd yn sicrhau na fydd ei staff, yn tarfu ar unrhyw hawliau unrhyw berson, ac na fydd yn cyflawni unrhyw weithred enllibus, cableddus na difenwol, nac yn torri darpariaethau unrhyw Gyfreithiau Perthnasol;

13.15 mae gan y Cyfieithydd, neu fe fydd gan y Cyfieithydd o’r Dyddiad Effeithiol, fesurau diogelwch technegol a sefydliadol digonol mewn grym, gan gynnwys offer a meddalwedd bâs data, sydd yn llywodraethu’r gwaith o brosesu’r Data Personol ac arferion gwaith unrhyw gyflogedigion sydd yn

ymwneud â gwaith prosesu o'r fath yn unol â gofynion y Cyfreithiau Diogelu Data.

14. **Cyfrinachedd**

14.1 At ddibenion y Cymal hwn, golyga **"Gwybodaeth Gyfrinachol"** yr holl wybodaeth, data a medrau cyfrin o natur gyfrinachol (boed yn ysgrifenedig, ar lafar neu mewn unrhyw ffurf arall) sy'n berthnasol i fusnes S4C ac/neu ei Chwmnïau Teulu sydd yn cael eu datgelu neu eu gwneud ar gael at ddibenion y Cytundeb hwn a boed cyn, ar neu wedi dyddiad y Cytundeb hwn, gan gynnwys heb gyfyngiad:

14.1.1 yr holl wybodaeth gyfrinachol sydd yn y (d)dogfen(nau) i'w cyfieithu fel rhan o'r Gwasanaeth neu a rennir mewn unrhyw gyfarfod lle mae'r Cyfieithydd yn cyfieithu ar y pryd neu a nodir mewn unrhyw Friff Prosiect;

14.1.2 bodolaeth a chynnwys y Cytundeb hwn ac unrhyw Is-Gytundeb;

14.1.3 Data Personol S4C; ac

14.1.4 unrhyw wybodaeth arall a ddywedwyd wrth y Cyfieithydd ei fod yn gyfrinachol neu y dylai'r Cyfieithydd yn rhesymol ddisgwyl i S4C ei ystyried yn gyfrinachol.

14.2 Bydd y Cyfieithydd yn defnyddio'r Wybodaeth Gyfrinachol at ddibenion cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn yn unig ac yn ddarostyngedig i ddarpariaethau cymal 14.4, ni fydd yn datgelu Gwybodaeth Gyfrinachol i unrhyw berson arall ac eithrio dan amgylchiadau o gyfrinachedd i'w staff os oes angen iddynt fod yn ymwybodol ohoni yn unig, a bydd y Cyfieithydd yn cymryd pob cam rhesymol i orfodi unrhyw ddyletswyddau cyfrinachedd o'r fath yn erbyn unrhyw o'i Staff.

14.3 Mae'r Cyfieithydd drwy hyn yn ymrwymo ag S4C na fydd (a bydd yn sicrhau na fydd ei weithwyr nac unrhyw un arall sy'n ymwneud â'r Gwasanaeth) ar unrhyw adeg yn ystod y Cyfnod (heblaw pan fo'n rhan o ymgymryd â'r Gwasanaeth yn gywir) neu wedi terfynu'r Cytundeb hwn pa bynnag fodd y'i terfynir, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol:-

14.3.1 yn defnyddio at ddibenion ei hun, neu at ddibenion unrhyw berson, cwmni, busnes neu gorff arall a pha bynnag natur; neu

14.3.2 yn datgelu i unrhyw berson, cwmni, busnes neu gorff arall o ba bynnag natur;

unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol ac y bydd y Cyfieithydd yn defnyddio ei ymdrechion gorau i rwystro cyhoeddi neu ddatgelu unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol gan drydydd parti.

14.4 Ni fydd y cyfyngiadau ar ddatgelu gwybodaeth a gynhwysir yng nghymalau 14.2 a 14.3 yn weithredol i unrhyw wybodaeth sydd:

14.4.1 yn gyhoeddus neu a ddaw yn gyhoeddus ac eithrio o ganlyniad i unrhyw dorri ar y cyfyngiadau ar ddatgelu gan y Cyfieithydd neu unrhyw o'i staff; neu,

14.4.2 yn ofynnol i'w datgelu o dan y gyfraith neu i unrhyw gorff rheoleiddio y mae'r partïon yn gorfod cydymffurfio â'i reolau, ar yr amod bod y Cyfieithydd, i'r graddau y caniateir yn gyfreithiol i wneud hynny, yn rhoi i S4C cymaint o rybudd â phosib o'r fath ddatgeliad.

14.5 Mae'r Cyfieithydd yn ymrwymo ag S4C y bydd ar derfyn y Cytundeb a/neu unrhyw Is-Gytundeb perthnasol (pa bynnag fodd y'i terfynir) yn:

14.5.1 dychwelyd i S4C pob dogfen a deunydd (ac unrhyw gopïau) sy'n cynnwys, yn adlewyrchu, yn ymgorffori neu'n seiliedig ar y Wybodaeth Gyfrinachol;

14.5.2 yn dileu'r holl Wybodaeth Gyfrinachol o systemau cyfrifiadurol a chyfathrebu a dyfeisiadau a ddefnyddir ganddo, gan gynnwys systemau o'r fath a gwasanaethau storio data a ddarperir gan drydydd partïon (i'r graddau sy'n dechnegol ymarferol); ac

14.5.3 yn tystio'n ysgrifenedig ei fod wedi cydymffurfio â gofynion y cymal hwn, ar yr amod y gall y Cyfieithydd gadw: i) dogfennau a deunydd sy'n cynnwys, yn adlewyrchu, yn ymgorffori neu'n seiliedig ar y Wybodaeth Gyfrinachol i'r graddau sy'n ofynnol o dan y gyfraith neu unrhyw gorff rheoleiddio perthnasol; a ii) deunydd sy'n adlewyrchu neu'n seiliedig ar y Wybodaeth Gyfrinachol i'r graddau sy'n ofynnol er mwyn cyflawni'r Gwasanaeth yn effeithiol yn unol â chymal 4.4.

14.6 Gall S4C ystyried unrhyw ddatgelu neu gamddefnydd o Wybodaeth Gyfrinachol fel ymddygiad sydd yn gamymddygiad dybryd ac yn sail i derfynu'r Cytundeb hwn ac unrhyw Is-Gytundeb heb rybudd.

14.7 Mae S4C yn cadw pob hawl yn y Wybodaeth Gyfrinachol. Ni roir unrhyw hawliau mewn perthynas â'r Wybodaeth Gyfrinachol i'r Cyfieithydd ac eithrio'r rhai a nodir yn benodol yn y Cytundeb, ac nid oes unrhyw hawl yn ymhlyg yn y Cytundeb.

## 15. <u>Diogelu Data</u>

15.1 Gall S4C brosesu'r holl Ddata Personol a ddarperir i S4C mewn cysylltiad â'r Gwasanaeth yn unol â'r Cyfreithiau Diogelu Data ar gyfer pwrpas gweithredu'r Cytundeb hwn. Mae'r Cyfieithydd yn cydnabod y bydd S4C yn prosesu Data Personol a ddarparwyd gan y Cyfieithydd ar sail gyfreithiol rheidrwydd cytundebol. Bydd y Cyfieithydd yn sicrhau caniatâd yr holl unigolion perthnasol i brosesu eu Data Personol at ddiben gweithredu'r Cytundeb hwn. Bydd yr holl Ddata Personol a fydd yn cael ei ddarparu i S4C yn cael ei brosesu yn unol â pholisi diogelu data a hysbysiad preifatrwydd S4C sydd mewn grym o bryd i'w gilydd, y mae copïau ohonynt ar gael ar wefan S4C.

15.2 Bydd y ddau barti yn cydymffurfio â holl ofynion perthnasol y Cyfreithiau Diogelu Data. Mae'r cymal 15.2 hwn yn ychwanegol i, ac nid yw'n lleddfu, disodli na chael gwared ar ddyletswydd unrhyw barti o dan y Cyfreithiau Diogelu Data.

15.3 Mae'r partïon yn cydnabod, ar gyfer pwrpas y Cyfreithiau Diogelu Data, mai S4C yw'r rheolwr data (*Data Controller*) a'r Cyfieithydd yw'r prosesydd

data (*Data Processor*) (fel y diffinnir *Data Controller* a *Data Processor* yn y Cyfreithiau Diogelu Data). Mae Atodlen 3 yn gosod sgôp, natur a phwrpas y prosesu gan y Cyfieithydd, hyd y prosesu a'r mathau o ddata personol a chategorïau o Oddrych Data (*Data Subject*).

15.4 Heb amharu ar gyffredinolrwydd cymal 15.2, bydd y Cyfieithydd, mewn perthynas ag unrhyw Ddata Personol a brosesir yn gysylltiedig â pherfformiad gan y Cyfieithydd o'i ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn yn:

15.4.1 prosesu'r Data Personol ar gyfarwyddyd ysgrifenedig S4C yn unig oni bai ei bod hi'n ofynnol i'r Cyfieithydd brosesu Data Personol o dan gyfreithiau unrhyw aelod o'r Undeb Ewropeaidd neu o dan gyfreithiau'r Undeb Ewropeaidd sy'n berthnasol i'r Cyfieithydd (Cyfreithiau Perthnasol);

15.4.2 sicrhau bod ganddo mewn lle fesurau technegol a sefydliadol addas, sydd wedi eu hadolygu a'u cymeradwyo gan S4C, er mwyn diogelu rhag prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon o'r Data Personol a rhag colled damweiniol neu ddinistrio, neu niwed i'r Data Personol, sy'n briodol i'r niwed a allai ddeillio o'r prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon neu golled damweiniol, ddinistrio neu niwed, a natur y data i'w ddiogelu, gan roi ystyriaeth i gyflwr datblygiad technolegol a'r gost o weithredu unrhyw fesurau (gall y mesurau hynny gynnwys, lle'n briodol, anonymeiddio ac encryptio'r Data Personol, sicrhau cyfrinachedd, uniondeb, argaeledd a gwydnwch ei systemau a gwasanaethau, gan sicrhau y gellir adfer argaeledd a mynediad i'r Data Personol mewn modd amserol ar ôl digwyddiad, ac asesu a gwerthuso effeithiolrwydd y mesurau technegol a sefydliadol a fabwysiadwyd ganddo yn rheolaidd);

15.4.3 sicrhau bod unrhyw bersonél sydd â mynediad i ac/neu sy'n prosesu Data Personol o dan ddyletswydd i gadw'r Data Personol yn gyfrinachol, eu bod yn ddibynadwy ac yn deall dyletswyddau cytundebol y Cyfieithydd i S4C;

15.4.4 peidio â throsglwyddo unrhyw Ddata Personol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd oni bai ei fod wedi derbyn caniatâd ysgrifenedig S4C ymlaen llaw a bod yr amodau canlynol wedi eu bodloni:

a) bod S4C neu'r Cyfieithydd wedi darparu mesurau diogelwch addas mewn perthynas â'r trosglwyddiad;
b) bod gan oddrych y data hawliau y gellir eu gorfodi a rhwymedïau cyfreithiol effeithiol;
c) bod y Cyfieithydd yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan y Cyfreithiau Diogelu Data gan ddarparu lefel addas o warchodaeth i unrhyw Ddata Personol a gaiff ei drosglwyddo; a
d) bod y Cyfieithydd yn cydymffurfio â chyfarwyddiadau rhesymol a hysbysir iddo o flaen llaw gan S4C mewn perthynas â phrosesu'r Data Personol;

15.4.5 rhoi cymorth i S4C, heb dâl, i ymateb i unrhyw gais gan oddrych data ac wrth sicrhau cydymffurfiaeth â'i ddyletswyddau o dan y Cyfreithiau Diogelu Data mewn perthynas â diogelwch,

hysbysiadau torri (*breach*), asesiadau effaith, ac ymgynghoriadau gydag awdurdodau goruchwylio neu reoleiddwyr;

15.4.6 hysbysu S4C heb oedi gormodol ac heb fod yn hwyrach nac o fewn 24 awr i ddod yn ymwybodol o doriad Data Personol (*data breach*);

15.4.7 ar gyfarwyddyd ysgrifenedig gan S4C, dileu neu ddychwelyd Data Personol a chopïau ohono i S4C ar derfynu'r Cytundeb;

15.4.8 gadw cofnodion a gwybodaeth cyflawn a chywir i ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r cymal 15.4 hwn ac i ganiatáu archwiliadau gan S4C neu archwiliwr dynodedig S4C;

15.4.9 apwyntio swyddog diogelu data os yw'n ofynnol iddo wneud hynny o dan y Cyfreithiau Diogelu Data neu ar gais S4C.

15.5 Nid yw S4C yn caniatáu i'r Cyfieithydd apwyntio unrhyw brosesydd trydydd parti o Ddata Personol o dan y Cytundeb hwn.

15.6 Gall S4C, ar unrhyw adeg ar roi dim llai na 30 diwrnod o rybudd, amrywio'r cymal 15 hwn gan ei amnewid ag unrhyw gymalau safonol rheolwr i brosesydd perthnasol neu delerau tebyg sy'n ffurfio rhan o gynllun ardystio perthnasol (a fydd yn weithredol unwaith y byddant wedi eu hamnewid trwy atodiad i'r Cytundeb hwn).

## 16. <u>Deddf Rhyddid Gwybodaeth</u>

16.1 Mae'r Cyfieithydd yn cydnabod bod S4C yn gorff cyhoeddus sydd yn ddarostyngedig i ofynion y DRhG a'r Rheoliadau a bydd yn cynorthwyo ac yn cydweithio ag S4C i alluogi S4C i gydymffurfio â'i dyletswyddau oddi tanynt ac, yn y cyswllt hwn, bydd y Cyfieithydd ac yn peri i'w staff:

16.1.1 ddarparu copi o'r holl wybodaeth berthnasol yn ei feddiant neu o fewn ei rym i S4C yn y ffurf mae ei angen ar S4C; a

16.1.2 darparu'r holl gymorth angenrheidiol y bydd S4C yn gofyn amdano'n rhesymol i alluogi S4C i ymateb i gais am wybodaeth cyn pen yr amser cydymffurfio a bennir yn adran 10 y DRhG neu reoliad 5 y Rheoliadau,

ar yr amod bod S4C yn rhoi rhybudd ysgrifenedig rhesymol i'r Cyfieithydd ymlaen llaw (a chaiff rhesymoldeb y rhybudd ei farnu yng nghyd-destun yr amserlen statudol ar gyfer darparu'r wybodaeth).

16.2 Bydd S4C yn gyfrifol am bennu os yw'r wybodaeth:

16.2.1 wedi'i heithrio o'i datgelu yn unol â darpariaethau DRhG neu'r Rheoliadau; neu

16.2.2 i'w datgelu mewn ymateb i gais am wybodaeth, ac ni fydd y Cyfieithydd yn ymateb yn uniongyrchol ar unrhyw gyfrif i gais am wybodaeth oni bai y caiff ei awdurdodi yn benodol gan S4C i wneud hynny ar ran S4C.

16.3 Mae'r Cyfieithydd yn cydnabod y gall S4C gael ei gorfodi dan DRhG, neu'r Rheoliadau, i ddatgelu gwybodaeth neu y gall benderfynu bod cydymffurfio â chais penodol am wybodaeth yn gwasanaethu'r budd cyhoeddus yn fwy na gwrthod y cais yn unol ag unrhyw eithriad perthnasol. Bydd S4C yn ymgynghori â'r Cyfieithydd pan fo hynny'n ymarferol ac yn ystyried ei farn. Pan fo barn y Cyfieithydd yn mynd yn groes i'r cyngor cyfreithiol y mae S4C wedi'i gael, ni fydd unrhyw beth yn y Cytundeb hwn yn atal S4C rhag gweithredu yn unol â'r cyngor cyfreithiol a gafodd.

16.4 Bydd y Cyfieithydd yn sicrhau bod yr holl wybodaeth a gynhyrchir tra'n cyflawni ei ddyletswyddau dan y Cytundeb hwn neu sydd yn gysylltiedig â'r Cytundeb hwn, yn cael ei chadw ar gyfer ei datgelu a bydd yn caniatáu S4C i archwilio'r cyfryw wybodaeth ar gais S4C o bryd i'w gilydd.

## 17. <u>Atal Llygredigaeth a Thwyll</u>

17.1 Ni fydd y Cyfieithydd yn cynnig neu roi, neu'n cytuno i gynnig neu roi, i S4C neu i unrhyw gorff cyhoeddus arall neu i unrhyw berson a gyflogir gan neu ar ran S4C neu unrhyw gorff cyhoeddus arall, unrhyw rodd neu ystyriaeth o unrhyw fath fel cymhelliad neu wobr am wneud, peidio â gwneud, neu am fod wedi gwneud neu wedi peidio â gwneud, unrhyw weithred amhriodol mewn perthynas â sicrhau neu weithredu'r Cytundeb neu unrhyw gytundeb arall gyda S4C neu unrhyw gorff cyhoeddus arall, neu am ddangos neu ymatal rhag dangos ffafriaeth neu anffafriaeth tuag at unrhyw berson mewn perthynas â'r Cytundeb neu unrhyw gytundeb o'r fath.

17.2 Mae'r Cyfieithydd yn gwarantu nad ydyw wedi talu comisiwn neu wedi cytuno i dalu comisiwn i S4C neu unrhyw gorff cyhoeddus arall neu i unrhyw berson a gyflogir gan neu ar ran S4C neu unrhyw gorff cyhoeddus arall mewn perthynas â'r Cytundeb.

17.3 Bydd y Cyfieithydd yn cymryd pob cam rhesymol i atal Twyll gan y Cyfieithydd ac/neu ei staff (gan gynnwys ei gyfranddalwyr, aelodau, cyfarwyddwyr) mewn perthynas ag arian a dderbynnir gan S4C a bydd yn hysbysu S4C ar unwaith os oes ganddo reswm i amau fod unrhyw Dwyll wedi digwydd, yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd.

17.4 Os bydd y Cyfieithydd, ei staff neu unrhyw un sy'n gweithredu ar ran y Cyfieithydd, yn ymddwyn mewn modd a waherddir gan gymalau 17.1 neu 17.2 uchod ac/neu yn cymryd rhan mewn Twyll mewn perthynas â'r Cytundeb hwn neu unrhyw gytundeb arall gyda S4C, gall S4C:

17.4.1 derfynu'r Cytundeb ac adennill gan y Cyfieithydd unrhyw golled a ddioddefir gan S4C o ganlyniad i'r terfyniad gan gynnwys unrhyw gostau rhesymol i S4C o ganlyniad i wneud trefniadau eraill ar gyfer cyflenwi'r Gwasanaeth ac unrhyw wariant ychwanegol dilynol i S4C drwy weddill y Cyfnod; neu

17.4.2 adennill yn llwyr gan y Cyfieithydd unrhyw golled arall a ddioddefir gan S4C o ganlyniad i dorri'r fath gymalau.

## 18. <u>Cyffredinol</u>

18.1 Mae'r Cytundeb hwn ac unrhyw Is-Gytundeb yn bersonol i'r Cyfieithydd ac ni fydd hawl gan y Cyfieithydd i aseinio, arwystlo, trwyddedu, is-drwyddedu neu drosglwyddo'r cyfan neu ran o'u cyfrifoldebau a/neu hawliau dan y Cytundeb hwn neu unrhyw Is-Gytundeb heb ganiatâd ysgrifenedig S4C o flaen llaw.

18.2 Ni fydd y Cyfieithydd yn rhoi i unrhyw barti arall unrhyw hawl, trwydded neu ganiatâd a all neu sy’n debygol o dorri ar neu amharu ar unrhyw rai o’r hawliau neu’r buddion a roddir i S4C o dan y Cytundeb hwn neu unrhyw Is-Gytundeb.

18.3 Heb gyfyngu ar hawl S4C i wrthgyfrif dan gyfraith gwlad, bydd gan S4C yr hawl i wrthbwyso yr holl arian sy’n ddyledus iddo neu y mae ganddo hawl iddo fel arall gan y Cyfieithydd o bryd i’w gilydd (boed o dan y Cytundeb hwn neu o ganlyniad i unrhyw setliad neu ddyfarniad lle mae iawndal neu indemniad yn ddyledus iddo mewn cysylltiad a’r Cytundeb) ac i’w ddidynnu o’r holl arian sy’n daladwy gan S4C i’r Cyfieithydd dan y Cytundeb neu unrhyw gytundeb neu drefniant arall.

18.4 Os bydd llys yn gwahardd unrhyw un o ddarpariaethau'r Cytundeb hwn neu unrhyw Is-Gytundeb, neu’n barnu bod unrhyw un o'r darpariaethau hynny'n anghyfreithlon, yn ddi-rym neu'n rhai na ellir eu gweithredu, bydd cymaint ag sy'n angenrheidiol o'r ddarpariaeth honno'n cael ei dileu o'r cytundeb a bydd yn aneffeithiol gymaint ag y bo modd, heb newid y darpariaethau sy’n weddill, ac ni fydd yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar unrhyw amgylchiadau eraill nac ar ddilysrwydd na gweithrediad y Cytundeb.

18.5 Mae’r Cytundeb hwn yn cynnwys y ddealltwriaeth lawn a chyflawn rhwng y partïon ac mae’n disodli pob trefniant a dealltwriaeth flaenorol, boed hynny’n ysgrifenedig neu ar lafar sy’n ymwneud â thestun y Cytundeb ac ni ellir ei amrywio ond trwy offeryn ysgrifenedig a arwyddwyd gan y ddau barti i’r Cytundeb hwn.

18.6 Nid yw’r Cytundeb hwn nac unrhyw Is-Gytundeb yn creu nac yn breinio unrhyw hawliau dan Ddeddf Cytundebau (Hawliau Trydydd-Bartion) 1999 y gellir eu gweithredu gan unrhyw berson nad yw’n barti i’r Cytundeb hwn.

18.7 Y cyfeiriad a roddir i bob parti yn y Cytundeb hwn fydd y cyfeiriad perthnasol o ran cyflwyno rhybuddion nes bydd y naill barti’n hysbysu’r llall o gyfeiriad newydd yn y Deyrnas Gyfunol yn ysgrifenedig. Er mwyn bod yn effeithiol, rhaid i bob rhybudd gan y Cyfieithydd at S4C fod yn ysgrifenedig ac wedi’i gyfeirio at Gynrychiolydd S4C ynghyd â chopi at Bennaeth Cyfreithiol a Busnes S4C.

18.8 Ystyrir bod rhybudd wedi cael ei gyflwyno ar y diwrnod gwaith nesaf os bydd wedi ei gyflwyno â llaw ac ystyrir ei fod wedi ei gyflwyno wedi dau (2) ddiwrnod gwaith os bydd wedi ei anfon drwy'r post dosbarth cyntaf. Bydd unrhyw gyfnod o rybudd a bennir yn y Cytundeb hwn yn dechrau ar y diwrnod yr ystyrir i’r rhybudd gael ei gyflwyno a bydd (oni bai y darperir fel arall) yn cynnwys dydd Sadwrn, dydd Sul a gwyliau cyhoeddus.

18.9 Ni fydd unrhyw fethiant neu oedi ar ran unrhyw barti i'r Cytundeb hwn sy’n ymwneud ag ymarfer unrhyw hawl, pŵer, braint neu rwymedi a ddarperir dan y Cytundeb hwn yn gweithredu fel ildiad o'r fath hawl, pŵer, braint neu rwymedi nac fel ildiad o unrhyw dor-cytundeb blaenorol neu ddiweddarach o’r Cytundeb hwn gan y parti arall ac ni fydd unrhyw

ymarferiad unigol neu rannol gan y naill barti i'r Cytundeb hwn o unrhyw hawl, pŵer, braint neu rwymedi yn atal unrhyw ymarfer arall neu bellach o'r fath hawl, pŵer, braint neu rwymedi arall a ddarperir yn y Cytundeb hwn, y mae’r cyfan ohonynt yn annibynnol ac yn gronnus ac nad ydynt yn ecsgliwsif o’i gilydd nac o unrhyw hawliau neu rwymedi eraill sydd fel arall ar gael i barti dan y gyfraith neu mewn ecwiti.

18.10 Ni ystyrir bod y Cytundeb hwn yn creu partneriaeth neu gyd-fenter neu gytundeb cyflogaeth rhwng y partïon. Ni fydd gan unrhyw barti unrhyw hawl nac awdurdod ac ni fyddant yn cyflawni unrhyw weithred, ymrwymo i unrhyw gytundeb, gwneud unrhyw gyflwyniad, rhoi unrhyw warantiad, achosi unrhyw atebolrwydd, honni unrhyw rwymedigaeth, boed hynny yn eglur neu’n ymhlyg, o unrhyw fath ar ran y parti arall ac ni fydd yn rhwymo'r parti arall mewn unrhyw ffordd neu’n dal ei hun allan i fod yn gysylltiedig gyda neu yn gweithredu mewn unrhyw gymhwyster ar ran y parti arall.

18.11 Dehonglir a llywodraethir y Cytundeb hwn ac unrhyw Is-Gytundeb yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr a bydd y partïon yn ufuddhau i awdurdodaeth ecsgliwsif llysoedd Cymru a Lloegr. Mae’r partïon yn cydnabod nad ydynt wedi dibynnu ar unrhyw gyflwyniadau ar ran y llall nac ar swyddogion neu gyflogedigion y llall ac eithrio’r rhai a ymgorfforir yn benodol yn y Cytundeb hwn ac unrhyw Is-Gytundeb.

**YN DYST I HYN** mae'r partïon i'r Cytundeb hwn wedi arwyddo'r Cytundeb hwn ar y dyddiad a'r flwyddyn a bennir uchod ar ddechrau'r Cytundeb hwn.

**ARWYDDWYD** gan gynrychiolydd awdurdodedig
Dros ac ar ran
**S4C:**

Arwyddwyd.......................................

Enw................................................

**ARWYDDWYD** gan gynrychiolydd awdurdodedig
Dros ac ar ran
**[Y Cyfieithydd]:**

Arwyddwyd.......................................

Enw.................................................

## ATODLEN 1

## CYFRADDAU A GYTUNWYD

***[Atodlen i'w hychwanegu yn dilyn cytundeb rhwng S4C a'r tendrwr llwyddiannus yn seiliedig ar y tendr llwyddiannus.]***

**ATODLEN 2**

**PERSONÉL ALLWEDDOL**

***[I'w gytuno rhwng S4C a'r tendrwr llwyddiannus yn seiliedig ar y tendr llwyddiannus.]***

## ATODLEN 3

## PROSESU DATA

***[I’w gwblhau yn dilyn gwobrwyo’r tendr]***

1. Prosesu gan y Cyfieithydd

1.1 Sgôp
1.2 Natur
1.3 Pwrpas y prosesu
1.4 Hyd y prosesu

2. Math o ddata personol

3. Categorïau o oddrych data